# Cyngor Bro Morgannwg
# Amodau i Gerbydau Hacni

1. Bydd y perchennog bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Cymalau Tref a Heddlu 1847, is-ddeddfau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod mewn grym a'r amodau a ddarperir yma o hyn ymlaen.

**Diffiniadau**

2. Yn yr amodau hyn, mae'r diffiniadau canlynol fel y'u diffinnir yn adran 80 Deddf Llywodraethau (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn gymwys:

   (a) Mae 'Swyddog awdurdodedig yn golygu unrhyw swyddog cyngor dosbarth a awdurdodir gan y cyngor at ddiben Rhan hon y Ddeddf hon.

   (b) Ystyr 'Yr Awdurdod Trwyddedu' yw Awdurdod Trwyddedu Cyngor Bro Morgannwg.

   (c) Ystyr 'Cyngor' yw Cyngor Bro Morgannwg.

   (d) Mae 'y perchennog' yn cynnwys perchennog rhannol ac, mewn perthynas â cherbyd sy'n destun cytundeb llogi neu gytundeb hurbwrcasu, mae'n golygu'r person sy'n meddu ar y cerbyd o dan y cytundeb hwnnw.

   (e) Ystyr 'Tacsimedr' yw unrhyw ddyfais ar gyfer cyfrifo'r ffi i'w godi mewn perthynas ag unrhyw daith mewn cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat trwy gyfeirio at y pellter a deithiwyd neu'r amser a aeth heibio ers dechrau'r daith, neu gyfuniad o'r ddau.

   (f) Ystyr 'Cerbyd' yw cerbyd hacni fel y'i diffinnir gan adran 38 Deddf Cymalau Tref a Heddlu 1847, sef *"every wheeled carriage, whatever may be its form or construction, used in standing or plying for hire in any street within the prescribed distance , and every carriage standing upon any street within the prescribed distance, having thereon any numbered plate required by this or the special Act to be fixed upon a hackney carriage, or having thereon any plate resembling or intended to resemble any such plate as aforesaid, shall be deemed to be a hackney carriage within the meaning of this Act; and in all proceedings at law or otherwise the term 'hackney carriage' shall be sufficient to describe any such carriage."*

**Math y Cerbyd**

3. Bydd y cerbyd yn addas o ran math a dyluniad i'w ddefnyddio fel cerbyd hacni. Caiff unrhyw anghydfod ei benderfynu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

4. Ac eithrio tacsis fel rhai Llundain, bydd pob cerbyd yn wyn gyda boned du. Ni chaiff unrhyw newid ei wneud i liw'r cerbyd heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Trwyddedu.

5. Caiff y cerbyd ei gadw mewn cyflwr da bob amser er mwyn bodloni'r Awdurdod Trwyddedu.

6. Caiff tu fewn a thu allan y cerbyd (gan gynnwys ffenestri, arwyddion, hysbysebion a ffitiadau) ei gadw'n lân ac yn ffit i wasanaethau'r cyhoedd bob amser.

**Trwydded Ffenestr a Phlât Trwydded**

7. Bydd plât neu ddisg trwydded y cerbyd yn aros fel eiddo i'r Awdurdod Trwyddedu a chaiff ei ddychwelyd i'r Awdurdod Trwyddedu wrth ddiddymu, gwahardd neu beidio ag adnewyddu'r drwydded hon neu os caiff y cerbyd ei ddinistrio neu'n stopio cael ei ddefnyddio fel cerbyd hacni.

8. Bydd y perchennog bob amser yn sicrhau bod y drwydded ffenestr a ddosbarthwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei harddangos yn glir ar ochr dde ffenestr flaen y cerbyd, lle y gellir ei gweld yn rhwydd o flaen y cerbyd, i ddangos bod y cerbyd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hacni.

9. Mae'n rhaid i'r plât trwydded gael ei osod yn barhaol i gefn y cerbyd ar y tu allan corff y car neu ar y bymper ôl gyda'r cit gosod a ddarparwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu ar draul y perchennog ei hun. Mae'n rhaid i'r plât adnabod fod yn weladwy yn glir i yrwyr cerbyd sy'n dilyn ac mae'n rhaid iddo beidio â chuddio plât cofrestru'r cerbyd.

10. Bydd y perchennog a/neu'r gyrrwr bob amser yn sicrhau y bydd, yn cael ei arddangos yn glir ar ran ganolig neu uchaf pob drws blaen y cerbyd, sticer adnabod gludiog y cerbyd hacni a ddarperir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Mae'n rhaid i'r sticeri gael eu gosod yn barhaol ar bob drws gyda chefn gludiog y sticer adnabod.

11. Ni chaiff sticeri'r drysau eu newid neu eu difwyno mewn unrhyw ffordd.

**Uchafswm nifer y teithwyr**

12. Ni fydd nifer y teithwyr i'w cario yn y cerbyd ar unrhyw adeg yn fwy na'r nifer uchaf a ganiateir fel y nodir gan yr Awdurdod Trwyddedu

**Arwydd to**

13. Gosodir arwydd to â golau o gynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwydded ar bob cerbyd (heblaw am y tacsis math Llundain), gan ddangos ar flaen yr arwydd mewn llythrennau du o'r un math a maint, naill ai "TAXI FOR HIRE" neu "FOR HIRE" a rhif y drwydded ar y cefn a dylai fod yn gallu dangos yn glir i bersonau y tu allan i'r cerbyd a yw'r cerbyd i'w logi neu beidio. Mae maint y llythrennau a'r rhifau ar yr arwydd to fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.

14. Caiff pob arwydd goleuedig ei gysylltu â mesurydd y tacsi a gweithio fel y caiff yr arwydd goleuedig ei ddiffodd pan fydd y mesurydd yn gweithredu.

15. Bydd swîts ar neu ger dangosfwrdd y cerbyd neu ar y mesurydd i alluogi gyrrwr y cerbyd i ddiffodd yr arwydd goleuedig pan na fydd y cerbyd yn ceisio cael ei logi.

**Y Mesurydd**

16. Caiff y mesurydd a osodir ar bob cerbyd hacni ei galibro i gynnwys tariffau Cyngor Bro Morgannwg sy'n gymwys i nifer y teithwyr a ganiateir yn y cerbyd hwnnw.

17. Bydd y perchennog yn cyflwyno bob blwyddyn i'r Awdurdod Trwyddedu dystysgrif a ddosberthir gan osodwr mesuryddion a gymeradwyir gan yr Awdurdod Trwydded, yn dweud bod y mesurydd yn gywir ac yn cynnwys tariffau cerbydau hacni presennol Cyngor Bro Morganwwg yn unig.

**Tabl Prisiau**

18. Bydd y Perchennog yn sicrhau bod tabl prisiau yn cael ei gario yn y cerbyd trwyddedig bob amser a chaiff teithwyr ei weld ar gais.

**Manyleb y cerbyd**

19. Mae'n rhaid i'r cerbyd gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

(a) **Adeiladwaith - Mae'n rhaid i'r cerbyd fod wedi'i adeiladu a'i gynnal a'i gadw fel ei fod yn ddiogel ac yn gyfforddus ac mae'n rhaid bod ganddo ddrysau sy'n agos yn ddigonol i alluogi mynediad rhwydd i mewn i'r cerbyd ac allan ohono.** Mae'n rhaid i bob cerbyd fod â gyriant ochr dde a phedwar drws ac eithrio cerbyd fel bws mini a ddylai gael o leiaf dau ddrws ar gyfer y teithwyr yn unig. Mae'n rhaid i gerbydau fel bysiau mini sydd ag un drws at ddefnydd y teithwyr yn unig fod â'r drws ar ochr agosaf y cerbyd. Bydd gan bob drws ddolen rhyddhau ar y tu fewn.

(b) **Mynediad a Mynediad Allan - Dylai mynediad a mynediad allan i ac o'r rhan fwyaf o seddau mewn cerbydau aml-berson fod yn glir ac yn ddirwystr lle y bo'n bosibl.** Yn y cerbydau hynny lle y bo'n rhaid symud i alluogi teithwyr i adael y seddau sydd bellaf i'r cefn, mae'n rhaid cynnal a chadw'r seddau i'r ansawdd gorau er mwyn sicrhau y gall teithwyr fynd allan yn rhwydd ac ar unwaith mewn argyfwng.

(c) **Uchder (y tu fewn) – Mae'n rhaid i'r uchder uwchben seddau blaen a chefn y cerbyd o'i fesur o frig clustogau'r seddau i'r to fod o bellter addas i fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.**

(d) **Lle ar gyfer y pengliniau – Mae'n rhaid i'r pellter rhwng cefn y seddau blaen a'r ymyl blaen fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.** Mae'n rhaid i seddau blaen fod â digon o le i'r pengliniau ac mae'n rhaid iddo fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.

(e) **Seddau – Mae'n rhaid iddynt beidio â wynebu yn wysg eu hochr at y cyfeiriad teithio a byddant i gyd yn cydymffurfio â rheoliadau gwregysau diogelwch.**

(f) **Sedd Flaen – Mae'n rhaid i hyd y sedd flaen o'i fesur ar hyd canol y sedd fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.** Mae'n rhaid i led y sedd flaen o'r cefn i'r ymyl blaen fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.

(g) **Seddau (lled) - Mae'n rhaid i led y sedd gefn o'r cefn i'r ymyl blaen fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.**

(h) **Sedd gefn (hyd) – Mae'n rhaid i hyd y sedd gefn o'i fesur ar hyd canol y sedd fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.**

(i) **Corff/strwythur – Mae'n rhaid i ddrysau, paneli, adenydd a bymperi fod mewn cyflwr da, heb rwd, tyllau, metel sydd wedi torri neu unrhyw ddifrod gweledol arall i fodloni’r Awdurdod Trwyddedu.**

(j) **Gorchuddion seddau - Bydd y rhain mewn cyflwr da, yn lân heb unrhyw rwygiadau, difrod, saim neu unrhyw fath arall o halogiad, fel sy’n bodloni’r Awdurdod Trwyddedu.**

(k) **Gorchuddion lloriau - Bydd y rhain mewn cyflwr da, yn lân heb unrhyw halogiad, fel sy’n bodloni’r Awdurdod Trwyddedu.**

(l) **Trimins y tu fewn - Bydd y rhain mewn cyflwr da, yn lân heb unrhyw rwygiadau, difrod, saim neu unrhyw fath arall o halogiad, fel sy’n bodloni’r Awdurdod Trwyddedu.**

(m) Colfachau a chloeon drysau - Bydd y rhain mewn cyflwr da, yn gweithio’n dda a dylid sicrhau bod y drysau yn eistedd yn iawn ar ôl eu cau.

(n) **Ffenestr flaen a ffenestri – Dylent fod yn lân ac mewn cyflwr da i fodloni'r Awdurdod Trwyddedu.**

(o) **Gollyngiadau olew – Bydd yr injan heb ollyngiadau olew.**

(p) **Is-sêl – Ni fydd yn ymestyn y tu hwn i derfyn uwch y sil ar unrhyw gerbyd heblaw y caiff ei osod fel rhan o’r broses weithgynhyrchu wreiddiol.**

**Olwyn sbâr, carntro a jac**

20. Bydd pob cerbyd yn cario olwyn a theiar sbâr, jac a charntro, neu git addas i atgyweirio tyllau. Dylai unrhyw olwyn a theiar sbâr fod mewn cyflwr da ac mae’n rhaid peidio â’u cario’n rhydd yn y gist neu’r lle bagiau. Dylai’r olwyn a’r teiar sbâr gael ei gario yn y gilfach neu’r lle a ddarperir a chael ei glymu’n ddiogel i fodloni’r Awdurdod Trwyddedu, er mwyn peidio ag achosi perygl posibl i deithwyr.

**Y Gist neu’r lle bagiau**

21. Bydd gan gerbydau ddigon o le ar gyfer bagiau, naill ai ar ffurf lle bagiau ar wahân neu rywle lle gellir rhwystro bagiau yn iawn os digwydd bod damwain neu stop brys.

**Gosodiadau y tu mewn a'r tu allan**

22. Ni ddylai unrhyw osodiadau nac arwyddion gael eu gosod y tu mewn neu’r tu allan oni bai gyda chymeradwyaeth yr Awdurdod.

23. Mewn cerbyd aml-deithiwr bydd y perchennog yn arddangos arwyddion priodol sy’n dangos i deithwyr y ffordd orau o adael y cerbyd os digwydd argyfwng, gan gynnwys sut i ostwng cefnau seddau neu symud seddau os bydd angen.

**Trelars**

24. Ni chaiff trelars eu defnyddio ar y cyd â cherbyd hacni heb gymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gan yr Awdurdod Trwyddedu.

25. Caiff unrhyw drelar a ddefnyddir i gludo bagiau ei gyflwyno i'w brofi ar yr un pryd â'r cerbyd.

26. Caiff y trelar ei orchuddio'n llwyr i'w amddiffyn rhag y gwynt a'r glaw a'i glymu er mwyn amddiffyn y bagiau sy'n cael eu cludo.

27. Mae'n rhaid bod polisi yswiriant gan y trelar.

28. Mae'n rhaid i'r trelar arddangos plât cofrestru wedi'i ddyblygu a phlât llogi preifat ar y cefn a gaiff ei ddarparu gan yr Awdurdod Trwyddedu ar draul y perchennog ei hun.

29. Bydd y trelar o fath a gymeradwyir yn dangos pwysau heb ei lwytho, pwysau gros, manylion y gwneuthurwr a chaiff y trelar ei farcio'n addas.

30. Pan gaiff trelar ei atodi i gerbyd er mwyn cludo bagiau neu unrhyw reswm arall, bydd y perchennog yn sicrhau bod trwydded DVLA y gyrwyr yn cynnwys tynnu trelars.

**Arwyddion**

31. Ni chaiff unrhyw arwyddion, hysbysiadau neu hysbysebion eu harddangos yn, ar neu o'r cerbyd oni bai y cânt eu cymeradwyo yn gyntaf gan yr Awdurdod Trwyddedu.

32. Dim ond logos y cwmni a gymeradwyir all gael eu defnyddio.

33. Dim ond ar ddrysau ôl y teithiwr ar y cerbyd y gellir arddangos y logo cymeradwy ynghyd â rhif(au) ffôn y cwmni. Gellir gosod logo ychwanegol ar foned y cerbyd, chyhyd â'i fod wedi'i beintio neu ei osod yn gadarn ar y boned (ond ni ellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun).

34. Mae'n rhaid i unrhyw hysbysebion masnachol beidio â bod yn ymosodol neu'n anwireddus a bydd yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Safonau Hysbysebu.

35. Ni chaiff unrhyw gais am hysbysebu ei ystyried gan y swyddog heblaw bod dyluniad o'r hysbyseb yn cael ei gyflwyno.

36. Caiff unrhyw hysbysebu masnachol a ganiateir ond ei arddangos ar y lle y tu ôl i ddrysau cefn y teithiwr ond nid ar unrhyw ffenestr ar y cerbyd.

**Newidiadau**

37. Ni chaiff unrhyw addasiad neu newidiad ei wneud heb gymeradwyaeth yr Awdurdod Trwyddedu unrhyw bryd.

**Archwiliadau**

33. Bydd y cerbyd yn cael ei gyflwyno i'w archwilio wrth wneud cais am adnewyddu trwdded. Bydd cerbydau'n cael eu derbyn ar gyfer profion i adnewyddu trwydded hyd at un mis cyni'r drwydded ddod i ben.

Bydd cerbyd hefyd yn cael ei gyflwyno i'w archwilio ar gais gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ystod cyfnod y drwydded.

Mae'r amod hwn heb ragfarn i'r pwerau yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

.

**Trosglwyddiadau**

39. O fewn 14 diwrnod o drosglwyddo'r cerbyd i berson arall neu bersonau eraill rhoddir enw(au) a chyfeiriad(au) y bobl y trosglwyddwyd y cerbyd iddo/iddynt.

40. Bydd deiliad y drwydded yn ildio trwydded ffenestr y cerbyd sy'n cael ei drosglwyddo ar yr adeg pan gaiff y cais trosglwyddo ei gyflwyno.

**Damweiniau**

41. Caiff unrhyw ddamwain ei adrodd i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn saith deg dwy awr o'r digwyddiad.

**Sganwyr /Radios CB**

42. Ni chaiff sganiwr amledd neu radio CB ei osod neu ei gludo mewn unrhyw gerbyd.

**Teledu Cylch Cyfyng**

43. Caiff Teledu Cylch Cyfyng, gan gynnwys offer lluniau llonydd digidol ei osod mewn cerbyd trwyddedig yn amodol ar y darpariaethau canlynol

(a) Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwyddedu cyn y caiff offer Teledu Cylch Cyfyng ei osod a'i ddefnyddio yn y cerbyd;

(b) Caiff unrhyw ddeunydd a recordir ar yr offer ond ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achosion llys neu i helpu ymchwilio i drosedd neu i gadarnhau neu wrthbrofi cwynion a wnaed yn erbyn gyrrwr;

(c) Bydd deunydd a gaiff ei gipio gan y system ond yn hygyrch i'r heddlu ac i swyddogion awdurdodedig y Cyngor.

(d) Mae'n rhaid sicrhau bod deunydd a gaiff ei recordio ar gael ar gais i'r heddlu a swyddog y Cyngor a awdurdodwyd yn briodol;

(e) Caiff hysbysebion sy'n dangos bod y system Teledu Cylch Cyfyng yn weithredol yn y cerbyd eu dangos yn glir ar ffenestri'r teithwyr ac yn weladwy o'r tu allan i'r cerbyd. Bydd yr hysbysebion yn dweud "MAE TELEDU CYLCH CYFYNG AR WAITH YN Y CERBYD HWN".

(f) Mae'n rhaid i bob system gael ei hysbysebu gyda swyddogion y Cofrestrydd Diogelu Data gyda phrawf o gofrestru wedi'i gyflenwi i'r Adran Trwyddedu.

(g) Mae'n rhaid i bob system gael ei gweithredu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

**Mynediad i gadeiriau olwynion**

44. Os bydd y cerbyd wedi'i ddylunio neu ei addasu i gludo cadair olwyn, bydd y perchennog yn sicrhau bod y gyrrwr wedi derbyn hyfforddiant priodol i lwytho ac i gludo teithwyr sy'n gaeth i gadeiriau olwynion.

45. Mae’n rhaid bod unrhyw offer a osodwyd ar y cerbyd at ddibenion codi cadair olwynion wedi’i brofi yn unol â gofynion Rheoliadau Gweithredoedd Codi ac Offer Codi 1998 (SI 1998/2307). Mae’n rhaid cyflwyno tystysgrif parthed yr offer codi ar gais gan swyddog awdurdodedig. Mae’n rhaid cynnal a chadw unrhyw offer o’r fath mewn cyflwr gweithio da ac mae’n rhaid iddo fod ar gael i’w ddefnyddio bob amser.

**Anifeiliaid**

46. Mae’n rhaid cario cŵn tywys, cŵn clywed neu gŵn cymorth eraill a’i galluogi i aros gyda’r teithiwr am hyd y daith, heblaw bod gan y gyrrwr dystysgrif eithrio feddygol.

**Newid manylion**

47. Mae’n rhaid i’r perchennog roi gwybod i’r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig am unrhyw newid o ran cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith niwrnod o'r fath newid yn digwydd.

48. Bydd perchennog y cerbyd y rhoi gwybod i’r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith os bydd y newid lle y cedwir y cerbyd fel arfer, pan na fydd yn cael ei ddefnyddio, yn cael ei newid.

**Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG)**

49. Mae’n rhaid i’r perchennog gyflwyno tystysgrif diogelwch wrth osod LPG a phob blwyddyn ar ôl hynny. Mae’n rhaid i hyn gael ei ddosbarthu gan osodwr y mae’n rhaid iddo fod yn gymeradwy gan Gymdeithas Nwy Petrolewm Nwy Hylifol a’i gyflwyno i’r Adran Trwyddedu gyda’r cais.

50. Mae’n rhaid i’r perchennog gyflwyno tystysgrif diogelwch pan na fydd y Swyddog Trwyddedu neu’r profwr awdurdodedig yng Ngarej yr Alpau yn fodlon bod y system LPG yn parhau’n ddiogel. Bydd hyn ar draul y perchennog, ac mae’n rhaid ei chyflwyno o fewn dau fis ar ôl y cais.

51. Mae’n rhaid i’r perchennog ddarparu prawf, yn ysgrifenedig, i’r Adran Trwyddedu bod yswirwyr y cerbyd yn ymwybodol o osod LPG i’r cerbyd.

**Dyletswydd I Gadw Cofnodion**

52. Yn achos Trwyddedigion/Perchnogion sy’n rhentu, prydlesu, llogi neu roi benthyg eu Cerbydau Hacni, bydd y Trwyddedai/Perchennog yn cadw ac yn darparu cofrestr addas gyda’r manylion canlynol;

manylion y gyrrwr sydd wedi cael rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd.

a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr

b) Rhif y bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat y gyrrwr

c) Rhif plât a rhif cofrestru’r cerbyd i’w rentu, llogi, prydlesu neu fenthyg.

ch) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Cedwir y cofnodion am o leiaf 12 mis, byddant mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais swyddog Cyngor awdurdodedig neu gwnstabl yr heddlu i'w harchwilio.